Cadw

Croeso i Gastell Cricieth

Castell trawiadol y tywysogion uwchlaw'r tonnau

Beth i'w weld yng Nghastell Cricieth

1. Chwiliwch am y ddyfrgist o dan y rhwyll yn y cyntedd. Roedd yn storio dŵr mwynol croyw wedi'i hidlo trwy'r creigiau. Deuai'r dŵr o ffynnon y castell.
2. Chwiliwch am dri gwahanol fath o waith maen yn nhyrau'r Porthdy Mewnol er mwyn gweld sut y codwyd y castell yn uwch ac yn uwch dros amser.
3. Ewch draw tua Thŵr y Gogledd. Enw arall ar hwn yw Tŵr yr Injan. Credir y byddai peiriant rhyfel grymus ar ei ben a fyddai'n lluchio cerrig mawr gyda'r nod o ladd gelynion. Roedd hyn yn hanfodol o gofio pa mor aml yr ymosodwyd ar y castell.
4. Gwelwch dystiolaeth o wres y frwydr yn yr olion llosgi coch ar Dŵr y De-orllewin. Maent yno ers ymosodiad Owain Glyndŵr, dros 600 mlynedd yn ôl.
5. Cofiwch y byddai tywysog, neu frenin, yn dibynnu ai'r Cymry 'ta'r Saeson oedd yn rheoli'r castell ar y pryd, wedi gweld yr olygfa hon — lle da i gadw golwg ar y môr a'r wlad o gwmpas. Os yw'n ddiwrnod clir, edrychwch i'r de ac fe welwch Gastell Harlech.
6. Cymerwch gip ar ein carchar. Roedd carcharorion o bwys a oedd wedi digio tywysogion Gwynedd yn cael eu cadw yn Nhŵr y De-ddwyrain.
7. Cewch fod yn dywysog am ddiwrnod a chanfod sut a pham y bu i'r castell newid dwylo, diolch i'n harddangosfa ryngweithiol.
8. Y fynedfa, y siop a'r toiledau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru



Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Criccieth Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 15:54